

Eich cyf / Your ref:

Gofynner am / Please ask for:

Fy nghyf / My ref:

Llinell Uniongyrchol / Direct Line: **01267 246521**

Dyddiad / Date: **28/01/2019**

E-bost Uniongyrchol / Direct E-mail: **FreeSchoolMeals@sirgar.gov.uk**  
**FreeSchoolMeals@carmarthenshire.gov.uk**

Annwyl Rieni/Gwarcheidwaid

## **Newidiadau i gymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim o dan gredyd cynhwysol**

Mae'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim wedi cael eu newid. Mae'r llythyr hwn yn esbonio'r newidiadau a sut allent eich effeithio arnoch chi.

### **Beth yw'r meini prawf cymhwysedd newydd?**

Mae gan blant hawl i gael prydau ysgol am ddim os ydynt hwy neu eu rhieni neu warcheidwaid yn derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau hyn.

- Credyd Cynhwysol, ar yr amod fod ganddynt incwm blynyddol net a enillwyd heb fod yn uwch na £7,400 (£616.67 y mis)
- Cymorth Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Cymorth o dan Ran 6 Deddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Elfen warant Credyd Pensiwn
- Credyd Treth Plant, ar yr amod nad ydynt hefyd yn gymwys i dderbyn Credyd Treth Gwaith a bod ganddynt incwm gros blynyddol o ddim mwy na £16,190, fel y'i aseswyd gan HMRC
- Credyd Treth Gwaith estynedig – fe'i telir am 4 wythnos wedi ichi beidio bod yn gymwys i gael Credyd Treth Gwaith
- 

### **Nid wyf yn hawlio prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd – beth mae hyn yn ei olygu imi?**

Os ydych yn credu y gallech fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, gwnewch gais ar lein. <https://www.sirgar.llyw.cymru>. Defnyddir y wybodaeth a roddwch i wirio a ydych yn derbyn budd-dâl cymhwysol ac, os ydych ar Gredyd Cynhwysol, nad yw eich

#### **GARETH MORGANS B Ed. M. Sc**

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant  
Adran Addysg a Phlant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant,  
Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin. SA31 3HB  
Director of Education and Children's Services  
Department for Education and Children,  
Building 2, St. David's Park, Jobs Well Road,  
Carmarthen, Carmarthenshire. SA31 3HB

*Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn croesawu  
gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg  
Carmarthenshire County Council welcomes  
correspondence in Welsh or English*



**BUDDSODDWYR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE**

enillion yn uwch na'r trothwy. Os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol, caiff eich enillion eu hasesu o hyd at dri o'ch cyfnodau asesu Credyd Cynhwysol diwethaf.

Os ydych yn gymwys, bydd eich ysgol yn cael gwybod. Bydd eich plentyn yn cael prydau ysgol am ddim a bydd yr ysgol yn derbyn cyllid ychwanegol.

### **Rwyf yn hawlio prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd – beth mae hyn yn ei olygu imi?**

Ni fydd y meini prawf newydd yn effeithio ar y rhan fwyaf o bobl. Os ydych yn hawlio prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd, ond nad ydych yn bodloni'r meini prawf newydd, bydd eich plentyn yn parhau i gael prydau ysgol am ddim hyd at ddiwedd cyfnod cyflwyno Credyd Cynhwysol. Bydd hynny'n wir hyd yn oed os yw eich enillion yn mynd yn uwch na'r trothwy newydd neu os byddwch yn peidio bod yn gymwys i dderbyn Credyd Cynhwysol. Rhagwelir ar hyn o bryd y daw'r cyfnod cyflwyno i ben ym mis Mawrth 2022.

Unwaith y caiff Credyd Cynhwysol ei gyflwyno'n llawn, bydd eich plentyn yn cadw ei bryd ysgol am ddim hyd at ddiwedd ei gyfnod presennol o addysg, h.y. cynradd neu uwchradd.

### **O ble alla i gael mwy o wybodaeth?**

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, siaradwch ag aelod o staff yr ysgol neu'r awdurdod. Gallwch hefyd fynd i'r wefan prydau ysgol am ddim: <https://www.gov.uk/apply-free-school-meals>